

Mehefin, 2022

Annwyl riant/warcheidwad,

Wrth i ni ddechrau'r hanner tymor olaf ac wrth i Flwyddyn 11 gwblhau eu harholiadau allanol, hoffwn gymryd y cyfle i rannu rhai negeseuon pwysig gyda chi.

Amserlen adolygu:

Er bod disgyblion Blwyddyn 11 ar gyfnod adolygu ar hyn o bryd, rydym yn parhau i gynnal sesiynau adolygu gwerthfawr yn yr ysgol ar gyfer pob arholiad TGAU. Dosbarthwyd yr amserlen i'r disgyblion yn ystod eu Seremoni Ffarwelio cyn hanner tymor ac mae'r amserlen hefyd ar SMHW. Anogwn y disgyblion i fynychu'r sesiynau adolygu hyn gan y bydd eu hathrawon yn gallu cynnig cefnogaeth angenrheidiol iddyn nhw cyn yr arholiadau ac yn ein barn ni, does dim yn well na gallu gofyn cwestiynau a derbyn arweiniad gan athrawon, wyneb i wyneb.

Pan fydd disgyblion yn dod i'r ysgol ar gyfer sesiynau adolygu, disgwylir iddynt wisgo gwisg yr ysgol a sicrhau eu bod wedi mewngofnodi yn y Swyddfa, am resymau lechyd a Diogelwch.

Arholiadau TGAU a threfniadau CBAC:

Rydym yn falch iawn o ymroddiad disgyblion Blwyddyn 11 hyd yn hyn wrth iddynt wynebu eu harholiadau. Ar ôl dwy flynedd ansefydlog iawn iddynt, mae eu hagwedd cadarnhaol a'u gwaith caled yn destun balchder i ni gyd.

Hoffwn gadarnhau bod CBAC wedi ystyried y gallai rhai disgyblion fethu â sefyll arholiadau yr Haf hwn oherwydd COVID. Mae ganddynt gynlluniau yn eu lle ac os bydd disgybl yn colli arholiad oherwydd COVID, bydd CBAC yn defnyddio canlyniadau unedau eraill (e.e. arholiadau eraill, asesiadau diarholiad) er mwyn gallu pennu gradd deg, heb anfanteisio'r disgybl hwnnw. Os ydy disgybl yn methu arholiad am unrhyw reswm heblaw am Covid, bydd yr un canllawiau ag unrhyw flwyddyn arall yn eu lle a bydd angen cysylltu gyda'r ysgol yn syth os nad yw eich plentyn yn gallu mynychu arholiad.

Yr unig eithriad i'r drefn uchod ydy Gwyddoniaeth Driphlyg. Gan nad oes unedau/asesiadau diarholiad eraill ar gael ar gyfer y cymwysterau hyn, mae CBAC wedi pennu dyddiadau ychwanegol ar ddiwedd y cyfnod arholiadau (Mehefin 22ain a 23ain) er mwyn i ddisgyblion sefyll papur arall os ydyn nhw'n colli arholiad oherwydd salwch. Byddwn yn cysylltu gydag unrhyw ddisgyblion/rhieni'n uniongyrchol os oes achos yn codi.

Diwrnod canlyniadau TGAU:

Hoffwn gadarnhau mai'r dyddiad ar gyfer canlyniadau TGAU eleni ydy **dydd Iau, Awst 25ain**. Bydd yr ysgol ar agor o 08:30yb ar y diwrnod hwnnw. Mae tair ffordd y bydd canlyniadau ar gael eleni;

1. Casglu canlyniadau'n bersonol gan y disgybl
2. Cynrychiolydd yn casglu canlyniadau ar ran y disgybl
3. Danfon trwy e-bost ar y diwrnod



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur



Os hoffech dderbyn canlyniadau trwy e-bost neu enwebu cynrychiolydd i gasglu'r canlyniadau, a fyddoch chi'n chysylltu â'r swyddog arholiadau, Mrs Rhian Davies (DaviesR390@hwbcymru.net) gyda'ch cais erbyn **dydd Llun, Gorffennaf 18fed**.

Bydd cyfle ar y diwrnod i sgwrsio gyda Thîm y Chweched, Mr Ben Davies a Miss Catrin Lyall er mwyn holi unrhyw gwestiynau ynghylch opsiynau a chofrestru ar gyfer y Chweched Dosbarth. Bydd Swyddog Gyrfau yr ysgol yno hefyd i'ch cyngori yn dilyn derbyn y canlyniadau.

Trefniadau dychwelyd i'r Chweched Dosbarth:

Rydym yn edrych ymlaen at groesawu nifer fawr o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn ôl atom ym mis Medi. Mae'r disgyblion yn barod wedi llenwi 2 holiadur yn datgan y pynciau sydd o ddi-ddordeb iddyn nhw yn y Chweched Dosbarth ac felly bydd y colofnau dewisiadau ar gael **ddydd Gwener, Mehefin 10fed**. Rhaid pwysleisio y bydd modd newid opsiynau ar ôl derbyn canlyniadau TGAU os ydy'r disgyblion yn newid eu meddyliau am eu dewis o bynciau Safon Uwch.

Os ydych chi am drafod opsiynau'r Chweched Dosbarth cyn diwrnod y canlyniadau, mae croeso i chi gysylltu gyda'r ysgol.

Gwisg ysgol y Chweched Dosbarth:

Er mwyn cynllunio mewn digon o amser, hoffwn eich hysbysu y bydd modd prynu gwisg ysgol Chweched Bryn Tawe trwy 'Bergoni' yn Llansamlet.

Manylion y wisg:

- Crys gwyn a thei ysgol ar gyfer Y Chweched (disgwylir i holl ddisgyblion y Chweched wisgo tei; cost y tei yw £6)
- Siwmpwr ddu benodol a bathodyn y Chweched Dosbarth arni
- Trowsus du plaen neu sgert ddu o hyd addas (i'w prynu'n annibynnol)
- Esgidiau du

Gwisg Addysg Gorfforol – fel y blynnyddoedd iau, er bydd tracwisg ar gyfer myfyrwyr a fydd yn dilyn cyrsiau'r Adran Addysg Gorfforol (manylion gan yr Adran Addysg Gorfforol ym mis Medi).

Hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth gyson a pharhaus yn ystod y tymor hwn. Cofiwch fod croeso i chi gysylltu â'r ysgol ar unrhyw adeg os oes gennych gwestiwn neu ymholiad.

Gan ddymuno'n dda i'ch plentyn ar gyfer gweddill y cyfnod arholiadau.

Yn ddiffuant,

Rhian Edwards-Jones (Dirprwy)

Edwa-JoneR@hwbmail.net



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net

www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWRYR
MEWN POBL**

Aur

